Ysgol Penrhyn-coch

Fel arfer, pur dawel yw dechrau blwyddyn newydd ar ôl holl brysurdeb y Nadolig ond erbyn hyn ail gychwynwyd ar y gweithgareddau.

Derbyniodd nifer o'r plant hyn dystysgrifau am eu medrusrwydd gymnasteg ar ddechrau'r tymor.

Agorwyd tymor arall o gyfarfodydd cangen yr ysgol o'r Urdd yng nghwmni Mr Harry Jones, Swyddog Datblygu Ceredigion. Drwy gyfrwng fideo cafodd y plant gyfle i gael golwg ar wersylloedd Llangrannog a Glanllyn ac yr oedd yn amlwg wrth eu hymateb bod nifer ohonynt yn gobeithio cael gwyliau yno yn y dyfodol agos.

Mae'r bechgyn wedi ail-gydio yn gêmau pêl-droed ac yn gobeithio dal ar eu record ddiguro o'r tymor diwethaf.